# SL(6)323 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Bwriad y Rheoliadau hyn yw diwygio’r system apelau Ardrethu Annomestig (NDR) yng Nghymru. Gweinyddir y system gan ddau sefydliad annibynnol, gyda’r naill a’r llall yn gyfrifol am wahanol gamau o'r broses. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn gyfrifol am brisio a rhestru hereditamentau ar gyfer ardrethi annomestig, gan gynnwys ystyried cynigion gan drethdalwyr sydd o’r farn y dylid newid eu prisiad. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn gyfrifol am apelau, pan na cheir cytundeb rhwng trethdalwr ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio o ran newid arfaethedig i brisiad.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi proses newydd ar waith i drethdalwyr ymgysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, wedi'i hategu gan ei llwyfan digidol, ac ychydig o newidiadau ychwanegol i'r trefniadau ar gyfer apelau i Dribiwnlys Prisio Cymru. Nod y newidiadau yw gwella effeithlonrwydd y system ar gyfer trethdalwyr a chyrff cyhoeddus, drwy leihau apelau hapfasnachol ac aflwyddiannus. Maent hefyd yn gweithredu fel galluogwr ar gyfer y nod polisi ehangach o gyflawni ailbrisiadau ardrethi annomestig yn amlach, gan sicrhau bod biliau trethdalwyr yn adlewyrchu'r amodau economaidd cyfredol yn fwy cywir ac, yn ei dro, yn lleihau'r tebygolrwydd y caiff apêl ei chyflwyno.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy’n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i’r Gronfa honno neu i unrhyw ran o’r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn**

**gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Nodwn, o dan reoliad 17(2), fod yn rhaid i unrhyw swm sy'n dod i law'r Swyddog Prisio ar ffurf 'cosb Rhan 2' gael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae 'cosb Rhan 2' yn gosb ariannol (£200) a osodir ar berson o dan reoliad 16 am roi gwybodaeth ffug i Swyddog Prisio.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Chwefror 2023**